

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 4 Mawrth 2015

9.30 – 12.10

Prifysgol Bangor

Yn bresennol:

- Cyfarwyddwyr: Andrew Green (Cadeirydd)
Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg
Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
- Sylwedyddion: Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC
Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Catherine Rees, Ysgrifennydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Nia Brown, Swyddog Datblygu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Ymddiheuriadau: Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr
Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Rachel Cable, sylwedydd Prifysgolion Cymru

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	<p>1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan gyfeirio at y cyfarfod blynyddol (Llys) a dathliadau'r Cynulliad a gynhaliwyd y diwrnod cynt.</p> <p>1.2 Nodwyd â thristwch angladd y diweddar Athro John Rowlands ac y byddai rhai o'r aelodau'n ymadael yn gynnar o'r herwydd.</p> <p>1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd presenoldeb yr aelodau er mwyn sicrhau cworwm yn y cyfarfodydd. Argymhellwyd cyfeirio'r mater at Brifysgolion Cymru a Gweithgor y Cyfansoddiad.</p>	<p>Swyddogion i agor y drafodaeth</p>	<p>Mawrth 2015</p>
2. Datganiadau o ddiddordeb	<p>2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p> <p>2.2 Datganodd tri aelod ddiddordeb yn yr eitem Cymraeg i Oedolion. Ar yr achlysur hwn ni fyddai modd trafod na chynnal pleidlais ar eitem 8 oherwydd diffyg cworwm. Penderfynwyd cynnull cyfarfod arbennig maes o law. Cytunwyd i ysgrifennu at Brifysgolion Cymru i nodi nad oedd digon o gyfarwyddwyr sefydliadol yn bresennol.</p> <p>2.3 Atgoffwyd yr aelodau o'u cyfrifoldebau fel Cyfarwyddwyr gan y Cadeirydd, gan gyfeirio'n benodol at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid dilyn Côd Ymarfer Cyfarwyddwyr y Coleg. • Wedi i gyfarwyddwr ddatgan diddordeb, ni ddylai gymryd rhan pellach yn unrhyw drafodaethau ar y pwnc hwnnw, nac ychwaith unrhyw bleidleisiau perthnasol. 	<p>Trefnu cyfarfod arbennig</p> <p>Ysgrifennu at Brifysgolion Cymru</p>	<p>Cyn diwedd Mawrth 2015</p> <p>Cyn diwedd Mawrth 2015</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Pwysleisiwyd y dylid trin gwrthdaro teyrngarwch yn yr un modd â gwrthdaro diddordeb, a bod angen bod yn arbennig o ofalus yn y cyswllt hwn. • Ni ddylid trafod busnes y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn allanol pa un a oes cyfarwyddyd gan y Cadeirydd i'r perwyl hwn ai peidio. • Atgoffwyd nad yw'r cyfarwyddwyr yn cynrychioli eu sefydliad na neb arall wrth wasanaethu fel cyfarwyddwyr o Fwrdd y Coleg, ond yn hytrach maent yn cynrychioli'r Coleg yn unig.. <p>Cytunwyd i ail-anfon Côd Ymarfer y Cyfarwyddwyr, y cymal perthnasol yn y Memorandwm ac Erthyglau, a Chanllawiau'r Comisiwn Elusennau at y Cyfarwyddwyr.</p>	Anfon y dogfennau perthnasol at y Cyfarwyddwyr	
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 26 Tachwedd 2014	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2014.		
4. Gohebiaeth	4.1 Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w chyflwyno at sylw'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.		
5. Materion Cyfansoddiadol	<p>5.1 Nodwyd penderfyniadau cyfarfod blynyddol y Llys a gyfarfu'r diwrnod cynt, gan yr Ysgrifennydd, fel a ganlyn:</p> <p>5.1.1 Cymeradwywyd cyflwyno cais i Weithgor y Cyfansoddiad ystyried cynrychiolaeth myfyrwyr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg.</p> <p>5.1.2 Cymeradwywyd ymestyn tymor Cyfarwyddwyr o 3 blynedd i 4 blynedd, yn weithredol o 1 Ebrill 2015. Bydd tymor yr holl gyfarwyddwyr cyfredol ar y dyddiad hwnnw yn cael eu hymestyn o dair i bedair blynedd. Cytunwyd i gylchredeg tabl tymor aelodaeth.</p>	Cylchredeg tabl tymor aelodaeth	Mawrth 2015

	<p>5.2 Cadarnhawyd ail-benodi'r Athro Iwan Davies a Jacqui Hare fel cyfarwyddwyr sefydliadol. Bydd eu tymor gwasaneth yn dod i ben fis Mawrth 2019.</p> <p>5.3 Cafwyd adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd ar drefniadau penodi Cyfarwyddwr Annibynnol ar gyfer 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2019. Mae Ieuan Wyn yn gymwys i'w ail-benodi ar gyfer cyfnod pellach. Eglurwyd bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar 5 Mawrth 2015 gyda'r cyfweiliadau'n fuan wedi hynny.</p> <p>5.4 Cafwyd adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd ar Weithgor y Cyfansoddiad. Eglurwyd na fyddai'r Cyfansoddiad yn cael ei ail-wampio'n llawn ar hyn o bryd ond yn hytrach yn cael ei adolygu'n gyson. Yn dilyn argymhelliad y Gweithgor trafodwyd newid geiriad amcanion y Coleg er mwyn adlewyrchu ystod gweithgareddau cyfredol y Coleg. Yn sgil derbyn cyngor cyfreithiol cyflwynwyd drafft ysgrifenedig o eiriad newydd ar gyfer y cymal. Yn dilyn nifer o newidiadau a gynigiwyd gan aelodau o'r Bwrdd cytunwyd yn unfrydol ar eiriad newydd i'w gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau. Yn dilyn derbyn eu hymateb bydd yn ofynnol i aelodau'r Llys gymeradwyo'r cymal newydd.</p>		
<p>6. Materion y Cadeirydd</p>	<p>6.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd ar drafodaethau diweddar gyda (i) CCAUC, (ii) CCAUC a swyddogion Llywodraeth Cymru a (iii) CCAUC a Phrifysgolion Cymru ynghylch dyfodol cyllido ansicr y Coleg yn arbennig yn sgil Adolygiad Diamond.</p> <p>6.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'r trafodaethau yn parhau o dan arweiniad y Cadeirydd a'r swyddogion. Trafodwyd yr angen i ystyried nifer o fodelau cyllido posibl a nodwyd bod hyn ar waith eisoes fel rhan o'r trafodaethau. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, mai cynnal lefel y gyllideb yn y tymor byr i ganolig yw'r flaenoriaeth ar hyn o bryd, yn hytrach na'r amrywiol fodelau cyllido posibl.</p>		

<p>7. Adroddiad y Prif Weithredwr (BC/15/01/07)</p> <p>Atodiad 7/3</p>	<p>7.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr a diweddariadau ar faterion perthnasol yn codi o gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 26 Tachwedd 2014.</p> <p>7.2 <u>Gwerthusiad o'r Coleg gan Oldbell</u>. Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Phrif Weithredwr CCAUC, Dr David Blaney, a swyddogion eraill, i drafod y Gwerthusiad. Cafwyd cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ogystal. Nodwyd, er gwybodaeth, y datganiad i'r Wasg gan CCAUC yngylch y Gwerthusiad (atodiad 7/1) a diweddariad ar ymateb y Coleg i'r argymhellion (atodiad 7/2). Cafwyd trafodaeth benodol ar ddatblygu model cyllido mwy hyblyg ar gyfer y Cynllun Staffio Academaidd yn y dyfodol. Rhagwelir y byddai'r Coleg (yn amodol ar y gyllideb) yn parhau i noddi swyddi penodol mewn rhai achosion ond, mewn achosion eraill, yn symud tuag at fodel gwahanol yn seiliedig ar grantiau i unedau academaidd neu adrannau (neu gyfuniad o adrannau). Cymeradwywyd agor trafodaethau gyda'r prifysgolion er mwyn cytuno ar yr adrannau perthnasol i'w cynnwys, yn y lle cyntaf, yn y model cyllido hyblyg, yn seiliedig ar y papur a gyflwynwyd gan Dr Dylan Phillips.</p> <p>7.3 <u>Cynllun Gweithredu'r Coleg 2014/15</u>. Cafwyd diweddariad ar y cynllun ar gyfer 2014/15 a thrafodaeth fer.</p> <p>7.4 <u>Adolygiad Diamond</u>. Adroddwyd bod y swyddogion wedi cyflwyno ymateb gan y Coleg i'r ymgynghoriad hwn. Cafodd aelodau'r Bwrdd gyfle i fwydo eu sylwadau i'r ymateb ac i gymeradwyo'r cynnwys.</p> <p>7.5 <u>Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon</u>. Adroddwyd bod y gwaith o baratoi cynigion ar gyfer Tystysgrif Cymhwysedd i Athrawon wedi ei gwblhau, gyda chefnogaeth Dr Gwyn Lewis. Nodwyd y bwriedir cyflwyno'r cynllun ar draws y canolfannau hyfforddi athrawon yn 2015/16 yn amodol ar gytuno ar drefniadau cyllido. Argymhellwyd cynnwys athrawon addysg bellach yn y Dystysgrif Cymhwysedd a</p>		
---	--	--	--

<p>Atodiad 7/4</p>	<p>chytunwyd i godi'r mater gyda'r CCAUC yn sgil nad oedd yn rhan o lythyr gorchwyl y Llywodraeth ar gyfer 2014/15.</p> <p>7.6 <u>Partneriaeth rhwng y Coleg a'r sector addysg bellach.</u> Adroddwyd y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Cynllunio Addysg Uwch/Addysg Bellach newydd ar 4 Chwefror 2015. Merfyn Morgan yw Cadeirydd y Grŵp. Nodwyd y cofnodion, er gwybodaeth.</p> <p>7.7 <u>Ymchwiliad Safonau.</u> Adroddwyd y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos gyda Chomisiyndd y Gymraeg i drafod perthnasedd y safonau i waith y Coleg.</p> <p>7.8 <u>Risgiau a chyfleoedd.</u> Nodwyd yn benodol y cyfarfodydd gyda'r sefydliadau yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2015 i asesu'r sefyllfa ynghylch parhad swyddi y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod cyllido cychwynnol.</p>		
<p>8. Cymraeg i Oedolion</p>	<p>8.1 Cytunwyd i alw cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i drafod cyflwyno cais i weithredu fel Endid Cenedlaethol ar gyfer maes Cymraeg i Oedolion. Yr oedd hyn yn angenrheidiol gan na fyddai cworwm yn bresennol wedi i ddau gyfarwyddwr sector addysg uwch adael yr ystafell oherwydd gwrthdaro buddiannau.</p>	<p>Trefnu cyfarfod arbennig</p>	<p>Cyn diwedd Mawrth 2015</p>
<p>9. Materion Staffio</p>	<p>9.1 Adroddwyd bod y Coleg wedi derbyn Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, a thalwyd teyrnged i waith yr Uwch Reolwr Materion Corfforaethol ac Adnoddau Dynol a'r staff ar gyrraedd y nod.</p> <p>9.2 Adroddwyd yn ogystal bod Elis Glynne, Swyddog Datblygu Cyfryngau Digidol ac E-ddysgu, ar fin gadael y Coleg. Nodwyd y byddai'r Coleg yn ystyried y sefyllfa ariannol cyn llenwi unrhyw swyddi gwag ac y byddai hyn yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Staffio yn eu cyfarfod ym mis Mai.</p>		

<p>10. Materion Cyllid (BC/15/01/10)</p>	<p>10.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar Gyllideb Ddrafft y Coleg ar gyfer 2015/16.</p> <p>10.2 Cymeradwywyd y Gyllideb gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a chytunwyd i'w gyflwyno ar ffurf derfynol yng nghyfarfod yr haf.</p> <p>10.3 Derbyniwyd adroddiad llafar ar gyllideb gychwynnol ar gyfer 2016/17.</p>		
<p>11. Pwyllgor Archwilio (BC/15/01/11)</p>	<p>11.1 Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2014.</p> <p>11.2 Trafodwyd enwau posibl i'w gwahodd i weithredu fel aelod cyfetholedig ar y pwyllgor yn sgil ymddiswyddiad Mererid Jones.</p>		
<p>12. Materion Academaidd</p>	<p>12.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2015.</p> <p>12.2 Adroddodd y Deon ei fod yng nghanol ei ymweliadau blynyddol â'r sefydliadau.</p> <p>12.3 Cafwyd crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf ynghylch y cynlluniau pynciol a nodi bod 20 o gynlluniau pynciol wedi eu paratoi, eu cadarnhau a'u gosod ar y wefan, ac y dylai pob un wedi eu gorffen erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd. Nodwyd y dechreuwyd ar y broses o adolygu'r cynlluniau pynciol gan ddechrau gyda meysydd Busnes a'r Gyfraith.</p> <p>12.4 Cafwyd diweddariad ar y cynllun cydweithio cenedlaethol ar gyfer Ieithoedd Modern., gan nodi bod hwn yn cynnig model ar gyfer cynllunio cenedlaethol yn gyffredinol.</p> <p>12.5 Nodwyd bod y Bwrdd Academaidd yn cadw golwg ar y broses o ddatblygu a chyd-ddilysu MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Adroddwyd bod nifer o heriau ymarferol wedi codi</p>		

	<p>wrth ddatblygu'r prosiect hwn ond bod galw mawr am gymhwyster o'r fath o du'r proffesiwn cyfieithu yn ogystal â Llywodraeth Cymru.</p> <p>12.6 Adroddwyd bod rhai materion penodol yn parhau i gael eu trafod mewn perthynas â chefnogaeth y Coleg i ddarpariaeth ym maes Gwleidyddiaeth.</p> <p>12.7 Cyfeiriwyd at gynllun gradd BA Perfformio sydd yn cael ei ddatblygu gan Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, ac i gael ei chynnig i raddau helaeth o leoliad yng Nghaerdydd. Adroddwyd bod Prifysgol De Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch y ddarpariaeth newydd, yn wyneb yr effaith posibl ar eu niferoedd myfyrwyr ar gyrsiau a noddir i raddau helaeth drwy gefnogaeth cynllun staffio'r Coleg. Pwysleisiwyd na fu'r Coleg ag unrhyw ran mewn symbylu penderfyniad y Drindod Dewi Sant i leoli ddarpariaeth yng Nghaerdydd. Nodwyd bod y Coleg wedi annog y ddau sefydliad i archwilio cyfleoedd i gydweithio.</p> <p>12.9 Aelodaeth o'r Bwrdd Academaidd: Adroddwyd bod Delyth Murphy a Gwerfyl Roberts wedi eu hail-benodi i'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>12.10 Adroddwyd bod cynrychiolaeth a phresenoldeb myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd wedi gwella.</p> <p>12.11 Diolchwyd i'r Deon am ei waith a'r adroddiad cynhwysfawr.</p>		
<p>13. Materion yn codi</p>	<p>13.1 <u>Eitem 8.1 – Trydydd tymor.</u> Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol nodwyd na ellid cynnig trydydd tymor i aelodau. Serch hynny, o dan amgylchiadau eithriadol, ac ar ôl bwlch, byddai modd cynnig tymor o wasanaeth pellach.</p> <p>13.2 <u>Eitem 18.1 – Cyngor y myfyrwyr.</u> Adroddodd Jacob Ellis y penderfynwyd nad oedd yn briodol cyflwyno papur ar ymgorffori Cyngor y Myfyrwyr â'r Coleg i'r cyfarfod hwn ond y bwriad fyddai</p>	<p>BB i gyflwyno papur i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p>	<p>17 Mehefin 2015</p>

	ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.		
14. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr (BC/15/01/14)	<p>14.1 Cafwyd adroddiad llafar gan yr Athro Jerry Hunter ar y papur drafft a gyflwynwyd ar y bwrdd gan y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi ar Strategaeth Ymchwil y Coleg. Cyflwynir drafft pellach maes o law wedi i'r ddogfen gael ei thrafod yn y Bwrdd Academiaidd.</p> <p>14.2 Cyfeiriodd Dr Gwyn Lewis at draethawd ymchwil Lucy Morrow o Brifysgol Caerdydd a phwysigrwydd ei chanfyddiadau i'r Coleg. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod wedi derbyn crynodeb.</p>		
15. UFA	15.1 Nodwyd yr angen i ystyried aelodaeth sector Iechyd ar y Lllys.		
16. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	<p>19.1 Nodwyd y byddai'r swyddogion yn cylchredeg dyddiad ar gyfer cyfarfod arbennig maes o law ac y cynhelir cyfarfod arferol nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 17 Mehefin 2015, Abertawe <p>19.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Bangor am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.</p>		